# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mercher, 27 Mehefin 2012**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Agenda
(75)v3

**1. Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (45 munud)**

Gweld y cwestiynau

**2. Cwestiynau i Weinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy (45 munud)**

Gweld y cwestiynau

**3. Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad (15 munud)**

Gweld y cwestiynau

**4. Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar Roi Pwerau i Weinidogion Cymru yn Neddfau'r DU (60 munud)**

**NDM5022 David Melding (Canol De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar yr ymchwiliad i'r pwerau a roddir i Weinidogion Cymru yn neddfau'r DU, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ddydd Gwener 23 Mawrth 2012.

Noder: Gosodwyd ymatebion y Prif Weinidog, y Pwyllgor Busnes a Chomisiwn y Cynulliad i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 20 Mehefin 2012.

**Dogfennau ategol:**
Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Ymateb y Prif Weinidog
Ymateb y Pwyllgor Busnes
Ymateb Comisiwn y Cynulliad

**5. Dadl ar Ymchwiliad y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc i Weithredu Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 (60 munud)**

**NDM5021 Christine Chapman (Cwm Cynon)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ar yr ymchwiliad i Weithredu Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 8 Mai 2012.

Noder: Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru ar 20 Mehefin 2012.

**Dogfennau ategol:**
Adroddiad y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
Ymateb Llywodraeth Cymru

**6. Dadl y Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)**
**NDM5025 William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod cryfder y teimlad yn erbyn cynigion i israddio gwasanaethau yn Ysbyty Llwynhelyg yn Sir Benfro ac yn mynegi pryder ynghylch yr ymgysylltiad â chlinigwyr a'r cyhoedd;

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda Deoniaeth Cymru ac i adolygu'r arferion a ddefnyddir wrth gadw a hyfforddi meddygon iau;

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda'r Colegau Brenhinol i adolygu perthnasedd y canllawiau diogelwch clinigol a sicrhau bod y canllawiau hyn wedi'u teilwra ar gyfer amodau lleol, ac yn adlewyrchu amodau lleol, gan gynnal arfer gorau; a

4. Yn galw ar y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i egluro sefyllfa gyllido bresennol y Byrddau Iechyd Lleol yng Nghymru.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Dileu pwynt 1.

**Gwelliant 2 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Cynnwys ar ddiwedd pwynt 2:

'gyda'r nod o sicrhau bod yna lefelau staffio digonol ym mhob rhan o Gymru'

*[os derbynnir gwelliant 3, bydd gwelliant 4 yn cael ei ddad-ddethol]*

**Gwelliant 3 - Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Dileu pwynt 3.

**Gwelliant 4 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ym mhwynt 3 ar ôl 'adlewyrchu amodau lleol' cynnwys ', yn enwedig mewn ardaloedd gwledig ac ymylol,'

**Cyfnod Pleidleisio**

**7. Dadl Fer - WEDI'I GOHIRIO (30 munud)**

**NDM5024 Leanne Wood (Canol De Cymru):** Arafu'r traffig i sicrhau diogelwch ein plant ysgol

Bydd y ddadl hon yn canolbwyntio'n bennaf ar leihau cyfyngiadau cyflymder y tu allan i ysgolion er mwyn amddiffyn plant ar eu ffordd i'r ysgol.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, ddydd Mawrth, 3 Gorffennaf 2012